

# Gwasanaethau Refeniw – Hysbysiad Prosesu Teg



O fis Mai 2018 bydd deddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor roi hysbysiad i'n holl gwsmeriaid ynghylch pam a sut y byddwn yn defnyddio ac yn cadw eich gwybodaeth bersonol.

**Diben yr hysbysiad hwn yw cydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol hwn ac er gwybodaeth yn unig y mae.**

## 1. Pam rydym ni'n casglu ac yn defnyddio gwybodaeth bersonol?

Rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol i ddibenion cofrestru treth gyngor, caniatáu unrhyw ddisgownt, eithriad, cam i liniaru anabledd ac adennill unrhyw dreth gyngor sydd heb ei thalu.

Mae Prosesu eich data yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg gyhoeddus yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol. Deddf Gyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd).

## 2. Sut y mae Gwybodaeth amdanoch yn cael ei defnyddio.

Bydd yr wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei phrosesu yn unol â Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 a Deddf Diogelu Data 2018. Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu'r arian cyhoeddus yr ydym yn ei weinyddu, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych, yn ogystal â thechnegau paru data, i ganfod ac atal twyll, a hefyd ar gyfer unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â thenantiaeth. Byddwn yn croeswiro'r wybodaeth ag adrannau eraill yn y Cyngor, Cynghorau eraill ac Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Bydd y wybodaeth bersonol rydym wedi'i chasglu gennych yn cael ei rhannu ag asiantaethau atal twyll, a fydd yn defnyddio'r wybodaeth i atal twyll a gwyngalchu arian, a gwirio pwy ydych chi. Os caiff twyll ei ddarganfod, gellid gwrthod gwasanaethau penodol, cyllid, neu swydd, i chi. Gellir cael rhagor o fanylion am sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio gennym ni a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, trwy fynd i <https://www.cifas.org.uk/fpn>

Byddwn hefyd yn gwneud unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Gallem hefyd rannu'r wybodaeth hon â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am ganfod/atal twyll neu archwilio/gweinyddu cyllid cyhoeddus, er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chosteffeithiol. Er mwyn cyflawni hyn, gall yr wybodaeth gael ei rhannu â'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ac adrannau mewnol eraill, er enghraifft Gwasanaethau Amgylcheddol, etholiadau, tai, a'n hadran Gyfreithiol.

Ni fyddwn yn gwneud datgeliadau i drydydd partion i ddibenion marchnata.

Bydd eich data'n ddiogel a chyfrinachol ar bob adeg, a byddwn yn casglu'r wybodaeth bersonol sy'n ofynnol i asesu eich hawl i fudd-dal tai a/neu ostyngiad yn y dreth gyngor, cofrestriad ar gyfer y dreth gyngor a chyfraddau busnes, gostyngiadau, eithriadau, rhyddhadau ac adferiad.

## 3. Pa mor hir y byddwn yn dal gafael ar eich gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'r wybodaeth a roddwyd i ni am 6 mlynedd a chaiff eich gwybodaeth ei difa'n ddiogel pan na fydd ei hangen bellach.

## 4. Mynediad at fy ngwybodaeth bersonol?

Gellwch weld a ydym yn cadw unrhyw wybodaeth bersonol drwy wneud cais mynediad at bwnc o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018. I wneud cais am unrhyw wybodaeth bersonol a fo gennym, mae angen i chi wneud cais ysgrifenedig a'i gyfeirio at Adran Rheoli Gwybodaeth neu ysgrifennu i'r cyfeiriad isod:

Tîm Mynediad at Gofnodion, Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP

E-bost: [accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk](mailto:accesstorecords@pembrokeshire.gov.uk)

Ffôn: 01437 775798

## 5. . Eich Hawliau.

O dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol 2018, mae gennych hawliau fel unigolyn y gellwch eu harfer mewn perthynas â'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi.

- Hawl **Mynediad** – Mae gennych hawl i ofyn am fynediad at wybodaeth sydd gennym amdanoch chi a chopi ohoni
- Hawl i **Gywiro** – Mae gennych yr hawl i ofyn am gael cywiro eich gwybodaeth
- Efallai y bydd yr hawl i **Gyfngu** ar brosesu yn berthnasol – Cewch ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol mewn perthynas ag unrhyw wasanaeth gan y Cyngor. Efallai y bydd hyn yn gohirio neu yn ein hatal rhag darparu gwasanaeth i chi. Byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais ond efallai y bydd yn ofynnol i ni gadw neu brosesu gwybodaeth er mwyn cydymffurfio â'n dyletswyddau cyfreithiol.
- Yr hawl i **Wrthwynebu** – Nid yw hon yn hawl absoliwt a bydd yn dibynnu ar y sail gyfreithiol dros brosesu eich gwybodaeth bersonol.

## 6. Cwynion neu Ymholiadau.

Mae Cyngor Sir Penfro yn ymdrechu i gyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn ynghylch hyn o ddifrif. Rydym yn annog pobl i ddwyn mater i'n sylw os ydynt yn credu bod ein gwaith o gasglu neu ddefnyddio gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol. Rydym hefyd yn croesawu unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ein gweithdrefnau.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rhoi manylion cynhwysfawr ar bob agwedd o'n gwaith casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, byddwn yn rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol neu esboniad sydd ei angen. Dylid anfon unrhyw geisiadau am hyn i'r cyfeiriad isod:

Swyddog Diogelu Data

Joanne Hendy

Cyngor Sir Penfro, Neuadd y Sir, Hwlfordd, SA61 1TP

E-bost: [dataprotection@pembrokeshire.gov.uk](mailto:dataprotection@pembrokeshire.gov.uk)

Ffôn: 01437 764551

Os oes arnoch eisiau gwneud cwyn ynghylch y ffordd yr ydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gellwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwyllo cyfraith diogelu data:

Cyswllt Cwsmeriaid, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow SK9 5AF. E-bost: [casework@ico.org.uk](mailto:casework@ico.org.uk) Rhif ffôn: 0303 123 1113

## 7. Newidiadau i'r Hysbysiad Prosesu Teg hwn.

Byddwn yn adolygu ein hysbysiadau yn rheolaidd.